COFNODION Y CYNGOR: Busnes Agored
12.30 p.m., ddydd Llun 26 Medi 2022
Cynhaliwyd y cyfarfod yn 9 Iard y Cowper, Ffordd Curran, Caerdydd CF10 5NB ac mewn nifer o leoliadau eraill, trwy gyfrwng meddalwedd Zoom.

Busnes Agored y Cyngor – cofnodion 1 i 10.

1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Presennol: John Graystone (Cadeirydd), Sonia Reynolds (Is-gadeirydd), Jan Tiley, Tim Palazon, Stephen Nicholls, Jenni Jones-Annetts, Victory Ezeofor, Marion Burke, Sam Emmett, Salamatu Fada, Cathy Clark, Judith Evans, Siôn Aled Owen; Nicole Kinnaird (hyd at gofnod 3 yn unig), Chris Franks (hyd at gofnod 4), Dona Lewis (hyd at gofnod 5). Roedd cworwm trwy gydol y cyfarfod.
Hefyd yn bresennol: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau), Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm a Pherfformiad), Stephen Thomas (Ysgrifennydd y Cwmni/Clerc); Steffan Wiliam (cyfieithydd - gwasanaeth cyfieithu ar y pryd).
Ymddiheuriadau: Caroline Davies.

2. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 4 Gorffennaf 2022 a materion yn codi

Cafodd cofnodion Busnes Agored cyfarfod (hybrid) blaenorol y Cyngor, a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom, eu cymeradwyo fel cofnod cywir. Roedd ymateb wedi digwydd i'r tri phwynt gweithredu a restrid yn y cofnodion hynny, yn cynnwys cofnod 11 (amserlen cyfarfodydd): yn sgil hynny roedd y dyddiadau diwygiedig canlynol wedi'u dewis:

- Dydd Mawrth 17 Ionawr 2023 (Cyfarfod o'r Cyngor);
- Dydd Mercher 22 Chwefror 2023 (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol);
- Dydd Iau 30 Mawrth 2023 (Cyfarfod o'r Cyngor).

Llwyddodd Nicole Kinnaird i ymuno ar ddechrau'r cyfarfod am ychydig cyn mynd i diwtora, a chroesawyd hi i'w chyfarfod cyntaf o'r Cyngor.

3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2022

Cyfeiriodd Chris Franks, Cadeirydd y Pwyllgor, at natur gadarnhaol gyffredinol yr adroddiadau archwilio mewnol a astudiwyd yn ystod y cyfarfod, a chadarnhaodd aelodau eraill y Pwyllgor fod rheolaethau allweddol y Sefydliad i'w gweld yn cael eu gweithredu'n dda. Nododd y Cyngor y cofnodion.

4. Adroddiad y Prif Weithredwr, Medi 2022

Roedd yr adroddiad yn gyflwyniad gweledol y tro hwn, a rhannwyd y sylwebaeth am wahanol rannau ohono rhwng tri aelod yr Uwch Dîm Rheoli. Dywedodd Kathryn Robson fod swyddi cadeirydd ac is-

gadeirydd y Comisiwn Addysg ac Ymchwil Drydyddol yn cael eu hysbysebu ar y pryd. Roedd gan y Sefydliad gynrychiolydd ar grŵp llywio'r Adolygiad o Addysg Oedolion: Y Rhaglen Gydlynu Genedlaethol ar gyfer Cymru, ac roedd hynny'n fanteisiol. Mewn perthynas â Taith (rhaglen gyfnewid dysgu rhyngwladol), roedd y Sefydliad yn hwyluso'r rhaglen ar gyfer oedolion oedd yn fyfyrwyr, ar y cyd â Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru. Fodd bynnag, roedd y ddau gorff wedi methu â'u ceisiadau gwreiddiol am nawdd, a chymeradwywyd awgrym gan un aelod fod angen deall pam fod hynny wedi digwydd cyn cyflwyno cais arall. Roedd y Sefydliad wedi ennill gwobr am ei stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron, ac wedi defnyddio'r digwyddiad yn llwyddiannus i recriwtio dysgwyr a thiwtoriaid. **Holodd y Cyngor sawl tiwtor neu ddarpar diwtor oedd wedi deillio o hynny, ac awgrymwyd y dylid pennu targed o ran recriwtio ar gyfer Eisteddfod 2023**. Roedd Cwricwlwm Dinasyddion Cymru yn cael ei grybwyll mewn fforymau amrywiol, a chytunwyd y **dylai'r Cyngor gael crynodeb ysgrifenedig ohono, er gwybodaeth**.

Trafodwyd y diffyg dilyniant gan Lywodraeth Cymru ynghylch y Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Hiliol: un o fentrau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mewn perthynas â'r hinsawdd, byddai'r adroddiad disgwyliedig gan Cynnal Cymru ynghylch strategaeth amgylcheddol a chynaliadwyedd ar gyfer y Sefydliad yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd: **cynigiwyd y dylai'r Sefydliad ddod yn aelod o rwydwaith Hinsawdd Cymru, doed a ddêl**. Byddai Siôn Aled Owen yn mynychu digwyddiad ar-lein ynghylch y thema honno dan ofal Dinas-Ranbarth Caerdydd. Byddai'r ymgynghoriaeth marchnata yn cyflwyno eu hadroddiad nesaf yng nghyfarfod mis Tachwedd y Cyngor hefyd.

Roedd 80% o'r ddarpariaeth wedi dychwelyd i leoliadau wyneb yn wyneb, ond er bod cyrsiau wyneb yn wyneb ESOL yn gryf, roedd llai yn cofrestru ar gyfer cyrsiau sgiliau hanfodol. Roedd Cronfa Multiply yn achosi rhywfaint o broblemau, oherwydd roedd gan awdurdodau unedig Cymru ddulliau gwahanol o ymdrin â'r gronfa. Ond roedd newyddion da ynghylch prosiect AMIF (y Gronfa Lloches, Mudo ac Integreiddio), oherwydd roedd y Sefydliad wedi cael gwahoddiad i ymgeisio am nawdd i'w redeg yn ystod blwyddyn galendr 2023. Hefyd, roedd tuedd i gynnig cyrsiau hirach yn golygu y byddai cyfanswm cyffredinol y dysgwyr yn parhau i ostwng oherwydd roedd cyrsiau byrrach (yn para dim ond diwrnod neu hanner diwrnod mewn rhai achosion) yn llawer llai cyffredin yn y cwricwlwm, a oedd yn golygu gostyngiad o ran cyfanswm y myfyrwyr ond nid yng nghyfanswm yr oriau addysgu a ddarperir o reidrwydd. Cafwyd trafodaeth ynghylch y tudalennau deilliannau ac adborth dysgwyr, ac yna ynghylch y dudalen cyllid, a byddai buddsoddiad amgen gwerth £1.5 miliwn mewn arian parod yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Adnoddau. Cadarnhawyd fod y gwaith o chwilio am adeilad swyddfeydd/ addysgu newydd posibl yn parhau, ac nid oedd y chwilio wedi'i gyfyngu i ardal Casnewydd.

Trafodwyd yr ymateb i'r dudalen costau byw yn fanylach na dim, yn sgil y cadarnhad fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyfrannu 5% tuag at gynnydd costau byw staff yn 2022-23. Nodwyd y diwrnodau ychwanegol o wyliau ar ddiwedd Rhagfyr a gynigiwyd ar gyfer yr holl staff. Mewn perthynas ag iechyd a lles dysgwyr, roedd cerdyn TOTUM ar gael (yn cynnig disgowntiau da gan adwerthwyr penodol) ac roedd ystod o feini prawf estynedig i gael cymorth o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn, cwnsela a sesiynau boreau coffi yn cael eu trefnu ar eu cyfer. Ynghylch y cynnig i roi benthyciad di-log i staff, roedd y Cyngor yn cytuno â'r egwyddor ond yn credu fod angen archwilio'r manylion, felly **cytunwyd y dylid anfon manylion y cynllun trwy e-bost at y Pwyllgor Adnoddau i'w drafod ganddynt, cyn cael ei gymeradwyo'n derfynol gan y Cyngor cyfan**. Cadarnhawyd nad oedd y cynnig yn groes i ganllawiau Llywodraeth Cymru na CThEF.

5. Cyfrifon Rheoli ar gyfer 1 -31 Awst 2022

Roedd ffigurau'r adroddiad ariannol hwn yn cwmpasu mis cyntaf y flwyddyn ariannol yn unig. Roedd y naratif yn disgrifio'r meysydd hynny ble'r oedd heriau costau byw yn effeithio ar gynlluniau; trafodwyd llawer o'r materion allweddol yn y cofnod blaenorol. Cadarnhawyd fod y penderfyniad i dynnu costau 15

milltir o bob taith yng nghostau teithio tiwtoriaid yn fesur dros dro yn Nhymor 1 yn unig, ac roedd i gostio oddeutu £20,000.

6. Cofnodion Pwyllgor Profiad y Dysgwyr ar 24 Mehefin 2022

Fe wnaeth Salamatu Fada (Is-gadeirydd y Pwyllgor) ymdrin â'r prif bwyntiau a drafodwyd. Gofynnodd hi, mewn perthynas â chofnod 8 a chofnod 9, a fyddai modd cael ffigurau cymharol yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ynghylch nifer y cwynion gan ddysgwyr a'r achosion yn ymwneud â diogelu yr oedd y Sefydliad wedi'i gael dros y tair blwyddyn academaidd flaenorol. Byddai gwybodaeth am adnoddau llyfrgell ar-lein JISC yn cael ei rhoi yn yr un cyfarfod, ac unwaith eto, cyfeiriwyd at y defnydd posibl o brentisiaid mewn perthynas ag ystod o gyfleoedd mewnol.

7. Cofrestr Risgiau Medi 2022

Roedd y nodiadau a'r sylwadau wedi'u diweddaru a'u hadnewyddu'n gyffredinol ers cyhoeddi fersiwn Gorffennaf y rhestr, yn dilyn argymhellion gan y Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio, ac adroddiad TIAA (yr archwilydd mewnol) ynghylch lliniaru risgiau. Canmolwyd yr ymgysylltu rheolaidd â chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru ac â gwleidyddion ar y lefel genedlaethol. Ynghylch pwynt 2.1.4 (cyflwyno Mentoriaid Cyrsiau i wella'r defnydd o'r system Moodle), cadarnhawyd y gallai gwaith mentoriaid o'r fath gael ei rannu rhwng tiwtoriaid, Cydlynwyr Datblygu'r Cwricwlwm neu aelodau'r Tîm Digidol, yn dibynnu ar bwy allai gynnig y math mwyaf priodol o gymorth.

8. Newidiadau arfaethedig i'r cyfansoddiad ynghylch cyfnod aelodau'r Cyngor yn eu swydd

Eglurodd Stephen Thomas beth oedd yr opsiynau a oedd ar gael o safbwynt cyfansoddiadol i estyn cyfnodau aelodau'r Cyngor yn eu swydd (cymeradwywyd yr egwyddor honno yng nghyfarfod y Cyngor yng Ngorffennaf). Roedd y newid yng ngeiriad Rheol Sefydlog 21 fel pe bai'n cynnig mwy o hyblygrwydd na'r newid mewn amodiad yn Erthygl 10.4 yr Erthyglau Cymdeithasiad. Fodd bynnag, yr oedd pob aelod o'r Cyngor a siaradodd o blaid gweithredu y naill neu'r llall o'r newidiadau a fuasai'n caniatáu i aelodau'r Cyngor wasanaethu am gyfnodau hwy, ac yn y pen draw, **roedd y mwyafrif o blaid newid y Rheol Sefydlog, gan alluogi'r Cyngor i ychwanegu dwy flynedd at gyfnodau yn y swydd (sef uchafswm o wyth mlynedd olynol)**.

Cafwyd trafodaeth hefyd ynghylch y dulliau presennol o sicrhau aelodau newydd o'r Cyngor ac aelodau cyfetholedig pwyllgorau (roedd hynny'n aml wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd diweddar trwy swnian ar unigolion penodol), a chafwyd rhywfaint o anghytuno ynghylch gostwng y bwlch yng nghyfnod gwasanaethu aelodau'r Cyngor o ddwy flynedd (y sefyllfa bresennol – Erthygl 10.8) i un. Yn y pen draw, **roedd mwyafrif o blaid gostwng y bwlch i un flwyddyn**.

Credai Marion Burke ei bod hi'n bwysig sicrhau fod prosesau tryloyw (a democrataidd, yn achos rhai) yn parhau ac yn amlwg yn digwydd yn achos y newidiadau hyn, felly dylai newidiadau o'r fath gael eu cyflwyno'n ddi-gêl. Dylai'r meini prawf a ddefnyddir i gynnig estyniad i'w cyfnod yn y swydd i aelodau presennol y Cyngor neu aelodau'r Cyngor yn y dyfodol gael ei egluro ymlaen llaw, er mwyn i fesurau cymeradwy a gwrthrychol gael eu defnyddio, yn hytrach na rhai y gellid eu hystyried yn oddrychol. **Gofynnwyd i'r clerc ddrafftio mesurau at y diben hwnnw yn barod at gyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd**, i geisio sicrhau tegwch a rhesymeg fewnol mewn perthynas â'r prosesau, oherwydd buasent yn cael eu cynnig yn y CCB yn 2023. Roedd categorïau amrywiaeth, matrics sgiliau a chofnod presenoldeb aelodau'r Cyngor oll yn cynnig sylfeini posibl ar gyfer penderfyniadau gwrthrychol o'r fath.

9. Hunan-arfarniad o drafodion y cyfarfod gan aelodau'r Cyngor

Ystyriwyd bod cyflwyno adroddiad y Prif Weithredwr ar ffurf weledol yn ddatblygiad da. Roedd hynny wedi ysgogi trafodaeth a chwestiynau ac atebion mwy naturiol, oherwydd roedd hi wedi bod yn haws codi cwestiynau neu gynnig sylwadau ar adegau priodol wrth i'r tudalennau a'r themâu newid, o gymharu ag ymateb i un adroddiad ar bapur.

10. Dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd eraill yn ystod 2022-23 (wedi'u diwygio)

- Dydd Mercher 30 Tachwedd 2022
- Dydd Mawrth 17 Ionawr 2023
- Dydd Mercher 22 Chwefror 2023 (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol - nid oedd wedi'i gadarnhau ar y pryd a fyddai'n gyfarfod wyneb yn wyneb, rhithiol ynteu hybrid)
- Dydd Iau 30 Mawrth 2023
- Dydd Mawrth 16 Mai 2023 (Diwrnod Cynllunio Strategol)
- Dydd Iau 6 Gorffennaf 2023

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeiriad	Enw'r cofnod	Cam gweithredu a gytunwyd	Pwy ddylai weithredu	Erbyn pryd ddylid gweithredu
Cofnod 4	Adroddiad y Prif Weithredwr, Medi 2022	Holodd y Cyngor sawl tiwtor neu ddarpar diwtor oedd wedi deillio o bresenoldeb y Sefydliad yn yr Eisteddfod, ac awgrymwyd y dylid pennu targed o ran recriwtio ar gyfer Eisteddfod 2023.	CH	Tachwedd 2022
		Dylai'r Cyngor gael crynodeb ysgrifenedig o'r Cwricwlwm Dinasyddion yng Nghymru, er gwybodaeth.	KR	Tachwedd 2022
		Dylai'r Sefydliad ymaelodi â rhwydwaith Hinsawdd Cymru.	KR / CH	Tachwedd 2022
		Cytunwyd y dylid anfon manylion y cynllun benthyciadau di-log trwy e-bost at y Pwyllgor Adnoddau i'w drafod ganddynt, cyn cael ei gymeradwyo'n derfynol gan y Cyngor cyfan.	MB / ST	Hydref 2022
Cofnod 8	Newidiadau arfaethedig i'r cyfansoddiad ynghylch cyfnod aelodau'r Cyngor yn eu swydd	Gofynnwyd i'r Clerc lunio drafft o fesurau cymeradwy a gwrthrychol at ddibenion y posibilrwydd o ymestyn cyfnodau aelodau'r Cyngor yn eu swydd yn barod at gyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd.	ST	Tachwedd 2022